# CRONFA GRANT DATBLYGU BUSNES

# NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR

Mae'r Grant Datblygu Busnes yn cael ei ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) a bydd yn cynorthwyo busnesau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i arallgyfeirio, datgarboneiddio a thyfu.

Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF) yn cefnogi ymrwymiad ehangach y llywodraeth i godi'r gwastad ym mhob rhan o'r DU ac yn darparu cyllid ar gyfer buddsoddiad lleol rhwng 2023 a 2024. Prif nod UKSPF yw meithrin balchder bro a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU.

## PWY SY'N GALLU GWNEUD CAIS

- Mae unig fasnachwyr, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Cwmnïau Cydweithredol a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Menter Gymdeithasol Gofrestredig neu Elusen yn gymwys i wneud cais.
- Menter â throsiant gweithredol sy'n uwch na'r trothwy TAW presennol (£90,000) yn y 3 blynedd diwethaf
- Busnes sefydledig sydd wedi bod yn masnachu ers mwy na thair blynedd
- Cyfeiriad busnes ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Busnes bach a chanolig (llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol o dan €50 miliwn)

Os nad ydych chi'n siŵr o'ch cymhwysedd, cysylltwch â businessfunds@bridgend.gov.uk i gael cyngor.

Dyfernir y Grant Datblygu Busnes o dan Reolau Cymorthdaliadau'r DU. O dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fenter sy'n rhoi mantais economaidd iddi, sy'n golygu na ellid bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol. Gall fod ar ffurf grant, rhyddhad treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnydd o gyfleusterau islaw pris y farchnad, ymhlith mathau eraill o gymorth. Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau grant i benderfynu ar unrhyw oblygiadau posib o ran Rheoli Cymorthdaliadau. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol. Rhaid i bob ymgeisydd ystyried hefyd sut y bydd yn cyflawni yn unol â rheolau rheoli cymorthdaliadau a gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y bernir ei bod yn ofynnol. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ar gael o dan ganllawiau Llywodraeth y DU sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Pan fo'r Cyngor yn penderfynu na ellir dyfarnu grant mewn ffordd sy'n cydymffurfio o dan reolau Rheoli Cymorthdaliadau'r DU, bydd y cais yn cael ei ystyried yn anghymwys a bydd yn cael ei wrthod.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fynnu bod unrhyw gyllid grant yn cael ei ad-dalu - cyllid sydd, ar ôl ei ddyfarnu, yn mynd yn groes i Reolau Rheoli Cymorthdaliadau.

## FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO

Mae'r Grant Datblygu Busnes yn darparu **50%** o gostau prosiectau cymwys. Y grant lleiaf sydd ar gael yw **£5,000** a'r grant mwyaf sydd ar gael yw **£25,000** (heb gynnwys TAW).

Dyfernir y grantiau ar sail y cyntaf i'r felin ac mae'n rhaid llenwi'r holl ffurflenni a rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth berthnasol.

## BETH ALLWN NI EI ARIANNU

Gallai enghreifftiau o wariant cyfalaf cymwys gynnwys:

- Offer cyfalaf cysylltiedig â busnes gan gynnwys diogelwch tân
- Offer cyfrifiadurol
- Datblygu gwefannau
- Gwaith adeiladu / gwelliannau bach i adeiladau busnes gan gynnwys gwelliannau cymedrol yn unol â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

**Nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac mae ceisiadau'n cael eu gwerthuso fesul achos.**

## BETH ALLWN NI DDIM EI ARIANNU

- Unrhyw gostau a gaiff eu gwario cyn i chi gael cymeradwyaeth ffurfiol
- Unrhyw gostau refeniw
- TAW neu unrhyw drethi eraill
- Taliadau banc / cyllid ac ad-daliadau benthyciadau
- Costau cyfreithiol sy'n cael eu gwneud fel gofyniad statudol
- Costau rhedeg / refeniw rheolaidd neu barhaus (gan gynnwys rhenti, ardrethi, yswiriant, cyflogau,
  rhenti parhaus).
- Ffioedd codwr arian
- Cerbydau
- Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol
- Ailgyllido dyledion drwg o unrhyw fath, neu rwymedigaethau cwmni nad ydyn nhw’n gysylltiedig â'r prosiect
- Costau ceisiadau cynllunio
- Yswiriant
- Paratoi cynlluniau ac astudiaethau, e.e. Cynlluniau Busnes/Astudiaethau Dichonoldeb
- Eitemau stoc neu eitemau nad oes modd eu hailddefnyddio
- Cymorth grant i drydydd parti
- Gwaith a wnaed ar eiddo domestig, naill ai adeilad newydd neu adnewyddu neu estyniadau/ystafelloedd gardd/cabanau pren

Sylwer, lle mae cyfanswm cost y prosiect yn sylweddol uwch nag uchafswm swm y grant sydd ar gael, mae'n annhebygol y caiff ei gymeradwyo.

## EFFEITHIAU'R PROSIECT - ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

Rhaid i bob prosiect a ariennir gan UKSPF ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyd-fynd ag un neu fwy o'r ymyriadau a restrir a rhaid iddynt gyfrannu'r allbynnau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r ymyriad hwnnw. Mae rhestr lawn o'r ymyriadau a'r Allbynnau a'r Canlyniadau yn **Atodiad A.** Bydd angen i brosiectau ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyflawni eu Hallbynnau a'u Canlyniadau arfaethedig.

## SUT I WNEUD CAIS

- Llenwi a llofnodi ffurflen gais
- Dau ddyfynbris tebyg yn ymwneud â phob elfen o wariant cymwys. Y dyfynbris rhataf a ddarperir i bennu swm y grant
- Cynllun busnes
- Rhagolygon llif arian 12 mis a chyfrifon tair blynedd
- Os oes angen caniatâd cynllunio neu newid defnydd sy'n ymwneud â safle/adeilad masnachol ar gyfer y prosiect, yna rhaid darparu tystiolaeth gymeradwyo cyn y gellir cymeradwyo grant

- Prawf o'r arian sydd ar gael boed mewn cyfrif busnes neu fenthyciad i alluogi prynu 100% cyn hawliad grant
- Rhaid cyflawni prosiectau erbyn mis Rhagfyr 2024 a rhaid darparu'r holl dystiolaeth gan gynnwys taliadau o fewn yr amserlen hon

**Ni ddylid gwario unrhyw beth cyn i'r grant gael ei gymeradwyo, gan nad oes modd dyfarnu'r grantiau'n ôl-weithredol. Dan amgylchiadau arferol, dim ond un cais am gyllid y byddwn yn ei gefnogi dan y Gronfa Datblygu Busnes.**

**NI** ddylai busnes/cyfarwyddwr(wyr) y busnes fod â buddiant/cyfranddaliadau yn unrhyw un o'r cwmnïau sy'n cyflenwi dyfynbrisiau/amcangyfrifon ar gyfer y cais am grant. Mae'n rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy gwblhau a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn y byddwn yn ei chyhoeddi os bydd eich cais am grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen â'ch prosiect nes eich bod wedi dychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Pe na bai'r prosiect yn mynd yn ei flaen o fewn y cyfnod a nodir yn y llythyr cynnig, byddai'r grant yn darfod yn awtomatig.

**NI** fydd eitemau a brynir drwy gerdyn credyd/hurbwrcas/cytundebau credyd estynedig/prydlesi cyllid a phryniadau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant. Mae angen gwneud pob pryniant o'r **CYFRIF BANC a restrir ar y ffurflen gais a rhaid iddo fod yn enw'r Busnes neu'r Ymgeisydd.**
Pe bai'r cais yn llwyddiannus, bydd yr arian grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol i **GYFRIF BANC** yr Ymgeisydd neu'r Busnes ar ôl derbyn anfonebau a gweld mantolenni banc er mwyn cadarnhau'r taliadau a sicrhau gwaith monitro boddhaol.

Ni fydd grant yn cael ei gynnig na'i dalu os yw'r Busnes neu'r Ymgeisydd mewn dyled gydag unrhyw daliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Gwneir gwiriadau yn ôl y gofyn, i'w penderfynu gan eich Swyddog Prosiect.

## RHEOLI CYMORTHDALIADAU

O dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fenter sy'n rhoi mantais economaidd iddi, sy'n golygu na ellid bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau masnachol. Gall fod ar ffurf grant, rhyddhad treth, benthyciad, gwarant neu fuddsoddiad ecwiti ar delerau ffafriol, neu ddefnydd o gyfleusterau islaw pris y farchnad, ymhlith mathau eraill o gymorth.

Bydd y Cyngor yn asesu ceisiadau grant i benderfynu ar unrhyw oblygiadau posib o ran Rheoli Cymorthdaliadau. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol. Rhaid i bob ymgeisydd ystyried hefyd sut y bydd yn cyflawni yn unol â rheolau rheoli cymorthdaliadau a gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y bernir ei bod yn ofynnol. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau Rheoli Cymorthdaliadau ar gael o dan ganllawiau Llywodraeth y DU sydd ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Yn y lle cyntaf, mae'r Cyngor yn bwriadu dyfarnu'r grant hwn fel Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Mae MFA yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ddyfarnu cymorthdaliadau gwerth isel heb orfod cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r gofynion rheoli cymhorthdal sylweddol a bennir gan Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Mae gan MFA drothwy ariannol felly ni all unrhyw dderbynnydd dderbyn mwy na £315,000 yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae'r cyfnod cymwys yn gyfnod treigl o dair blynedd sy'n rhedeg o:

- Y rhan o'r flwyddyn ariannol gyfredol sydd wedi dod i ben (h.y., o 1 Ebrill), a
- y ddwy flynedd ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Dylid ystyried y canlynol i gyd wrth gyfrifo faint o MFA y mae eich busnes wedi'i dderbyn yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd flaenorol:

- MFA arall

- Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- Cymorth a roddir o dan reoliadau de minimis cymorth gwladwriaethol yr UE cyn diwedd y cyfnod gweithredu o 31 Rhagfyr 2020 a
- Chymorthdaliadau a roddir fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) o dan Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU a'r UE cyn i Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ddod i rym.

Os nad ydych yn siŵr sut y dyfarnwyd unrhyw gymorth blaenorol a gawsoch, cysylltwch â'r sefydliad a roddodd y cymorth.

Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch:- businessfunds@bridgend.gov.uk

**Mae gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ddisgresiwn llwyr ynghylch telerau, cymhwysedd a phenderfyniadau'n ymwneud â dyfarnu'r Grant Datblygu Busnes ac mae'n cadw'r gallu i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg.**

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw'r iaith o'ch dewis.
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*